COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD AR LEIN (TRWY ZOOM), NOS FAWRTH, 12FED IONAWR 2021 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)
Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, G. Campbell, Mrs M. Jones (Dirprwy Faer), C. Matthews, J. Pearson, M. Tasker, M. Worth..

SWYDDOGION: Mrs Tina Earley, Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol
Mrs Roz Dudley, Clerc Cynorthwyol.

HEFYD YN BRESENNOL: Aelod o'r Cyhoedd

194/20 <u>Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

195/20 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

196/20 <u>Ceisiadau Cynllunio O/48000 ag O/48006 (Cyfranogiad Cyhoeddus):</u>

Cytunodd y Cadeirydd i ddod a'r eitem hon ymlaen ar yr agenda fel rhan o'r sesiwn cyfranogiad cyhoeddus.

Croesawyd Mr Duncalf (yr ymgeisydd) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Dywedwyd wrtho nad oedd y Cyngor Tref wedi anfon unrhyw wrthwynebiad i'w gais cynllunio blaenorol, a wrthodwyd yn ddiweddarach gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl).

Adroddodd y Cynghorydd G. Baker i'r Pwyllgor ei bod wedi cael gwahoddiad i ymweld â safle'r datblygiad ac roedd y gwaith adnewyddu a wnaed wedi gwneud argraff arni. Fe gadwyd y nodweddion archeolegol ar y tu allan ac roedd y to agored, a fu'n bryder i'r ACLl, wedi cael ei adfer i'r gorffeniad pren Fictoraidd gwreiddiol ac mi fydd yn rhannol weladwy o'r llawr gwaelod ac yn weladwy o lawr y llofft ganol arfaethedig. Roedd y Cynghorydd Baker o'r farn y dylid canmol Mr Duncalf am y gwaith a wnaed a dywedodd bydd yr adeilad, o'i ddefnyddio fel campfa, yn creu man canolig newydd o fudd i lesiant y gymuned leol, ac felly dylid cael cefnogaeth gan y Pwyllgor.

Dywedodd Mr Duncalf ei fod wedi dod i'r cyfarfod er mwyn cael ateb unrhyw bryderon oedd gan y Pwyllgor. Os oedd angen mynd a'r cais i apêl, cytunodd y Cynghorydd Baker i fod yn bresennol ac i siarad o blaid y cais.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Duncalf am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

197/20 <u>Cofnodion</u>:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15fed Rhagfyr 2020 yn adroddiad cywir.

198/20 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion:</u>

a) Cofnod 176/20(a)(ii): Ciosg Ffôn BT:

Nodwyd gan yr Aelodau bod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (CTHG) wedi cytuno i dderbyn y lwfans ward ac i barhau gyda'r gwaith a ddechreuwyd gan y Cynghorydd Barton o chwilio am leoliad addas ar gyfer diffibriliwr newydd ar ochr orllewinol safle Cefn Road.

Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn trosglwyddo'r arian hwn (£600) i GTHG er mwyn iddynt gwblhau'r prosiect.

b) Cofnod 176/20(b): Hysbysfyrddau:

Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth gontractwr y cysylltwyd ag ef ynglŷn â chynnal a chadw / ailwampio'r hysbysfyrddau. Archwiliwyd yr hysbysfyrddau gan y contractwr ac roedd wedi datgan nad oedd yn gallu cymryd y gwaith. Dywedodd y Clerc bod prisiau wedi cael eu derbyn yn 2017 gyda'r bwriad i ddechrau ar raglen o amnewid yr hysbysfyrddau, ac awgrymodd y dylid gofyn am brisiau newydd. Fe nodwyd nad oedd cyllideb ar gyfer hyn yn y flwyddyn ariannol bresennol oherwydd blaenoriaethau eraill, ond fe all y rhaglen amnewid ddechrau yn y flwyddyn ariannol newydd. Unwaith y derbynnir prisiau, fe ellir cadw digon o arian ar un ochr i amnewid un neu ddau o hysbysfyrddau pob blwyddyn.

Penderfynwyd gofyn am brisiau er mwyn dechrau ar raglen o amnewid yr hysbysfyrddau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

c) Cofnod 176/20: Meinciau Picnic:

Cyflwynodd y Clerc e-bost, prisiau a lluniau o'r byrddau picnic ar gyfer y promenâd, a dywedodd wrth y Pwyllgor bod y cyflenwr wedi cytuno i ymestyn ei gynnig 10 am 8. Person lleol oedd y cyflenwr ac fe allai'r Clerc cysylltu â Chynghorau Tref leol a archebodd ganddo er mwyn cael geirda, cyn archebu. Mewn ymateb i gwestiwn / pryder am y defnydd parhaol o farbeciws, dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor y gellir gosod arwyddion ar y safle picnic yn rhybuddio nad yw barbeciws i gael eu gosod ar y byrddau picnic. Fe nodwyd bod £2,250 ar gael ar hyn o bryd yng nghyllideb dodrefn stryd ac mai £3.160 oedd y gost am 10 o fyrddau picnic yn ychwanegol at y gost o'u gosod.

Penderfynwyd argymell i'r Cyngor bod y Clerc i gael yr awdurdod i brynu 10 o fyrddau picnic newydd, a bod y costau ychwanegol yn dod allan o'r arian wrth gefn cyffredinol (o danwariant eraill eleni) ac i ofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i amnewid y byrddau picnic a ddifrodwyd / wedi dod i'r diwedd, ar y banc gwair ger Porth Eirias (Promenâd Bae Colwyn).

199/20 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

a) Rheoliad Traffig Dros Dro: Fe nodwyd gan yr Aelodau, y rheoliad traffig dros dro ar gyfer Ffordd Llanelian o 17/3 - 18/3/2021 (Gwaith BT).

b) Canolfan Teulu Douglas Road: Fe nodwyd gan yr Aelodau, y daflen newyddion ac fe gyfeiriwyd at y gwaith da oedd yn mynd ymlaen.

c) Parciau i Bawb: Fe nodwyd yr e-bost ynglŷn â'r strategaeth gan yr Aelodau.

ch) Maes Parcio Porth Eirias: Fe nodwyd y negeseuon e-bost ynglŷn â chyflwyno prisiau newydd yn y maes parcio gan yr Aelodau.

200/20 <u>Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (CCLlGChC): Strategaeth Trafnidiaeth Cymru Gyfan:</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth a ganlyn i gael ei ystyried:

a) Yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r ddolen gyswllt ar gyfer y Strategaeth am Gymdeithas sy'n Heneiddio.

b) Yr ymateb drafft oddi wrth CCLlGChC.

Dywedodd y Cynghorydd G. Baker, un o gynrychiolwyr y Cyngor Tref ar CCLlGChC, ei bod yn cefnogi'r sylwadau a wnaed yn yr ymateb drafft.

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth.

201/20 <u>Cynllunio</u>:

a) Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b) ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy yn y cyfnod 14/12/2020 hyd at 27/12/2020.***

c) Cymorth Cynllunio Cymru: Cyflwynodd y Clerc manylion am Ddigwyddiad Rhwydweithio Cymorth Cynllunio Cymru a dywedodd wrth y Pwyllgor bod pedwar lle ar gael i'r staff / cynghorwyr.

Penderfynwyd bod y Cynghorwyr C. Brockley, G. Baker, C. Matthews ag un aelod o'r staff i fynychu'r digwyddiad rhwydweithio ar-lein ar 8fed Chwefror 2020.

ch) Fe nodwyd gan yr Aelodau bod ceisiadau O/47850 ag O/47887 wedi cael eu tynnu'n ôl

d) Doedd neb ar gael i fynd i gyfarfod safle'r Pwyllgor Cynllunio ar 12fed Ionawr ac felly ni dderbyniwyd adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.55 pm …… Cadeirydd

MINUTES OF A GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD REMOTELY (VIA ZOOM) AT 6.30 PM ON TUESDAY 12TH JANUARY 2021

PRESENT: Chairman: Cllr C Brockley
Cllrs: G Baker, G Campbell, M Jones (Deputy Mayor), C Matthews, J Pearson, M Tasker, M Worth

OFFICERS: Mrs C Earley, Town Clerk and RFO
R Dudley, Assistant Clerk

IN ATTENDANCE: Member of the Public

194/20 Welcome and Apologies for Absence

The Chair welcomed members to the meeting. No Apologies for absence were received.

195/20 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared

196/20 Planning Application 0/48000 & 0/48006 (Public Participation):

The Chairman agreed to bring this item forward in the agenda, as part of the public participation session.

The Chair welcomed Mr Duncalf (the applicant) to the meeting and informed him that the Town Council had submitted no objections to his previous planning application, which had subsequently been refused by the Local Planning Authority (LPA).

Cllr G Baker reported to the Committee that she had been invited to visit the development site and had been very impressed with the renovation work done. Archaeological features had been retained on the outside and the exposed roof, which had been a concern of the LPA, had been restored to its original Victorian wood finish and would be partially visible from the ground floor and visible from the proposed mezzanine floor. Cllr Baker felt that Mr Duncalf should be commended for the work that has been done and stated that the building, when used as a gym, would create a new well-being hub for the local community and should, therefore, be supported by the Committee.

Mr Duncalf said he had attended the meeting to address any concerns that the Committee may have. Should the application need to go to appeal, Cllr Baker agreed to attend and speak in favour of the application.

The Chair thanked Mr Duncalf and he retired from the meeting.

197/20 <u>Minutes:</u>

a)Resolved to approve and sign, as a correct record, the Minutes of the last meeting, held on 15th December 2020.

198/20 <u>Matters Arising from Previous Meetings:</u>

a) Min. 176/20(a)(ii) – BT Kiosk:

Members noted that OCRA had agreed to accept the ward allowance funds and continue the work started by Cllr Barton to find a suitable location for a new defibrillator to the west of the Cefn Road site.

Resolved to recommend to Council that the funds (£600) be transferred to OCRA to complete the project.

b) Min. 176/20(b) – Noticeboards:

The Clerk submitted an email from a contractor approached regarding maintenance/refurbishment of noticeboards. The Contractor had looked at the noticeboards, but felt unable to take on the work. The Clerk told the Committee that quotes had been obtained in 2017 with the intention to start a noticeboard replacement programme and suggested that updated quotes be requested. It was noted that there would be no budget this financial year, due to other priorities, but the replacement programme could start in the new financial year. Once quotes had been received, sufficient budget could be set aside to replace 1 or 2 noticeboards annually.

Resolved to seek quotations to start a replacement programme for noticeboards in the next financial year.

c) Min. 176/20 – Picnic Tables:

The Clerk submitted an email, prices and pictures of replacement picnic tables for the promenade and informed the committee that the supplier had agreed to extend the 10 for 8 offer. The supplier was local and the Clerk could contact local Town Councils who had ordered from them, for references, before placing an order. In response to a question/concern about the ongoing use of BBQs, the Clerk informed the Committee that signs could be placed at the picnic site, requesting that BBQ's are not placed on the picnic tables. It was noted that there is currently £2,250 available in the street furniture budget and the cost of the 10 picnic tables would be £3,160, plus installation costs.

Resolved to recommend to the Council that the Clerk be authorised to purchase 10 new picnic tables, with the additional funds to come from

general reserves (from other underspends this year) and to instruct CCBC to replace the damaged / time-expired picnic tables on the grass bank adjacent to Porth Eirias (Colwyn Bay Promenade).

199/20 <u>Conwy CBC</u>:

a) Temporary Traffic Regulation: Members noted the temporary traffic regulation for Llanelian Road from 17/03 – 18/03/21 (BT Work).
b) Douglas Road Family Centre: Members noted the newsletter and commented on the good work being completed.
c) Parks for All: Members noted the email regarding the strategy.
d) Porth Eirias Car Park: Members noted emails regarding the introduction of new charges at the carpark.

200/20 <u>North and Mid Wales Association of Local Councils (N&MWALC)</u>:

The Clerk submitted, for consideration, the following correspondence:
a) The public consultation and link for the Strategy for an Ageing Society.
b) The draft response from NMWALC.
Cllr G Baker, one of the Town Council representatives on the N&MWALC, spoke in support of the comments made in the draft response.
Resolved to note the correspondence.

201/20 <u>Planning</u>:

a) The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.
Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.

b) ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 14/12/2020 – 27/12/2020.***

c) **Planning Aid Wales**: The Clerk submitted details of a Planning Aid Wales Networking Event and informed the Committee that four places had been allocated for staff/councillors.
Resolved that Cllrs C Brockley, G Baker, C Matthews and one member of staff attend the online networking event on 8th February 2020.

d) Members noted the withdrawal of planning applications 0/47850 & 0/47887.

e) No report was received, as no one had been available to attend the Planning Site visit on 12th January.

The meeting closed at 6.55pm. …… Chairman